# PROSIECT: **CREU LLYN AC ARSYLLFAN, GOSOD LLOSGWYR COED A THOILEDAU COMPOSTIO, A CHREU LLWYBR MYNEDIAD**

YMGEISYDD: **OUTSIDE LIVES**

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**40**

LLLEOLIAD
**GWERNYMYNYDD, SIR DDINBYCH**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£58,635**



## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

## Y PROSIECT

Gofalu am y ddaear, ei phobl a'r dyfodol yw gwerthoedd craidd Outside Lives.

Diolch i'r gefnogaeth a dderbyniodd, bydd y fenter gymdeithasol yn gallu cysylltu â mwy fyth o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau, tra'n cynnal gweithgareddau a digwyddiadau a fydd yn cefnogi llesiant a thwf.

Gyda chymorth grant o bron i £60,000 gwnaed gwelliannau mawr i adnoddau eu llain pedair acer yng Ngwernymynydd.



## NODAU'R PROSIECT

Roedd Lucy Powell, rheolwr gyfarwyddwr a sefydlydd Outside Lives, yn awyddus iawn i wella adnoddau'r cwmni yn eu safle yng Ngwernymynydd.

Mae Outside Lives yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gryfder (strength-based approach) i edrych ar bobl fel pobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y pethau sy'n eu poeni, oherwydd mae gan bawb rywbeth i'w gynnig.

Y nod oedd creu lle mwy apelgar fyth i'r cyhoedd ddod a mwynhau'r adnoddau sydd ar gael.

CYMUNEDAU GWYRDD GREEN COMMUNITIES
CADWYN Clwyd — Asiantaeth Datblygu Gwledig Rural Development Agency
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# GWEITHGAREDD

Crëwyd llyn ac arsyllfan addas i bobl mewn cadair olwyn wylio a mwynhau bywyd gwyllt. Hefyd gosodwyd llosgwyr coed (wood burners) yn y caban ac yn y gilfach.

Codwyd dau doiled compostio a chrëwyd llwybr mynediad i'w gwneud yn haws mynd i mewn i'r goedwig, tra'n gwarchod yr amgylchedd yr un pryd.

Meddai Lucy: "Mae'r gwaith wedi ein galluogi i wahodd rhagor o bobl i ddefnyddio'r gofod, ac mae'n werth gweld y wên ar wynebau pobl wrth iddynt ganfod y gwelliannau a gyflwynwyd mewn amser mor fyr.

"Mae ein ffordd o weithio yn seiliedig ar y gymuned – trwy ganolbwyntio ar y pethau sy'n diddori pobl yn hytrach na'r hyn a welant fel heriau. Mae'n hyfryd iawn gweld yr effaith a gaiff y newidiadau ar y rhai sy'n dod i'r ganolfan."

Mae'r grant nid yn unig wedi gwella'r ddarpariaeth bresennol ond fe welir ei ddylanwad hefyd i'r dyfodol.

Ychwanegodd Lucy: "Mae'r arian, a'r adnoddau newydd ddaeth yn ei sgil, hefyd wedi agor drysau at dderbyn grantiau eraill.

"Rydym yn chwilio am gymorth i brynu bws mini. Ac wrth wneud hynny gallwn ddangos y pethau a gyflawnwyd gyda'r grantiau a gafwyd eisoes, gan brofi ein bod wedi gwario pob ceiniog yn ddoeth."



*"MAE WEDI EIN GALLUOGI I GYNNIG AMRYWIAETH FAWR O GYFLEOEDD GWIRFODDOLI I'R RHAI SY'N DOD I'N SAFLE, A BU HYNNY'N BROFIAD GWYCH.*

*"MAE EIN HYMWELWYR YN BOBOL O BOB MATH, YN GWNEUD POB MATH O SWYDDI A'U HOEDRAN YN AMRYWIO O CHWECH I WYTHDEG MLWYDD OED."*

*- LUCY POWELL*

# CANLYNIADAU

Mae Lucy wrth ei bodd fod Outside Lives yn medru parhau i gael dylanwad cadarnhaol ar fywyd pobl eraill.

Meddai: "Fe wna wahaniaeth mawr i'r pethau y gallwn eu gwneud. Bydd yn sicr yn ysgafnhau fy maich yn glanhau a chario gwresogydd nwy o adeilad i adeilad. Ac yn awr mae gennym adnoddau sy'n gwbl ddiogel.

"Wrth losgi coed sydd eisoes ar y safle, rydym hefyd yn lleihau ein costau a'n defnydd o nwy. Ac mae hynny yn ei dro yn helpu i warchod y blaned."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales · Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley